Cynllunio a rheoli prosiect

Bydd arianwyr y Loteri yn edrych ar eich cynlluniau dros redeg a rheoli eich prosiect wrth ystyried eich cais. Bydd rhoi cynllun prosiect at ei gilydd o gymorth mawr i chi wrth ystyried pa adnoddau fydd eu hangen, trefn ac amseriad gwahanol weithgareddau a sut byddwch yn rheoli eich prosiect. Dylai gynnwys popeth o'r gweithgareddau a'r tasgau sy'n angenrheidiol er mwyn cychwyn y prosiect i sut y byddwch yn cyrraedd ei ganlyniadau.

Y cynllun prosiect

Dylech ysgrifennu cynllun prosiect yn rhestru prif weithgareddau eich prosiect. Bydd angen i chi ystyried pob un o'r canlynol ar gyfer pob gweithgaredd:

- beth fydd yn ei wneud
- pa adnoddau sydd eu hangen arnoch – gan gynnwys adeiladau, offer, staff
- pryd fyddwch yn ei wneud
- ble fyddwch yn ei wneud
- pwy fydd yn ei wneud
- sut byddwch yn gwybod os bydd wedi ei gyflawni'n llwyddiannus
- sut mae'n cyfrannu at ganlyniadau eich prosiect

Bydd dod a'r wybodaeth yma ynghyd ar gyfer pob gweithgaredd yn eich galluogi i sefydlu beth sydd ei angen arnoch i gyflawni'r prosiect, ac ym mha drefn y bydd angen i chi wneud pethau. Bydd hyn yn eich helpu i gyfiawnhau ffordd eich prosiect o weithio a'r adnoddau fydd eu hangen arnoch i gyrraedd ei amcanion. Wrth i chi ddatblygu eich cynllun prosiect, mae'n bwysig eich bod yn meddwl ar bob amser beth ydych am i'ch prosiect ei gyflawni a sut byddwch yn monitro hyn.

Adnoddau a chostau

Unwaith y byddwch wedi penderfynu ar ba adnoddau sydd eu hangen arnoch dylech allu gweithio allan beth fydd cost eich prosiect. Mae'n bwysig iawn eich bod yn gywir wrth lunio eich cyllideb. Bydd angen i chi gyfiawnhau'r swm yr ydych wedi ei ofyn amdano. Er enghraifft, os ydych angen arian ar gyfer staff, bydd angen i chi ddangos sut y penderfynwyd ar y swyddi a'r cyflogau ar eu cyfer. Bydd gwybod cost lawn eich prosiect hefyd yn eich helpu i benderfynu pa raglen fyddai fwyaf addas i chi wneud cais iddi. Gweler ein taflen wybodaeth ar gyllidebu os gwelwch yn dda.

Rheolaeth

Dylech amlinellu pwy fydd yn gyfrifol am wahanol weithgareddau eich prosiect yn eich cynllun prosiect. Pwrpas hyn yw sicrhau fod y trefniadau rheolaeth ar gyfer eich prosiect yn realistig, a'u bod yn cyd-fynd â strwythur gyfredol eich sefydliad. Bydd angen i chi sicrhau fod y sgiliau a'r profiad perthnasol gennych o fewn eich sefydliad i reoli'r prosiect. Y mae'n gyffredin i arianwyr y Loteri ofyn i chi am fanylion aelodau eich pwyllgor rheoli a pha sgiliau a phrofiad sydd ganddynt fydd yn ategu at y prosiect. .

Bydd angen i arianwyr y Loteri wybod y gallwch roi cyfrif am eu harian ac y gallwch gyflwyno'r prosiect. Mae'n bwysig fod gennych drefn ar gyfer delio â chyllideb, er enghraifft - system gadw cyfrifon da, gwiriadau cyllid cyson a chyfrifon wedi eu paratoi'n briodol. Efallai y bydd arianwyr y Loteri hefyd eisiau edrych ar eich polisïau a gweithdrefnau, er enghraifft ar iechyd a diogelwch, cyflogaeth a chyfle cyfartal.

Cynllunio a rheoli prosiect

Yn olaf, mae angen i chi ddangos sut bydd defnyddwyr eich prosiect yn cael eu cynnwys wrth reoli'r prosiect a'r sefydliad. Rydym yn awyddus i weld eich bod yn ystyried anghenion, a'ch bod yn ymateb i'ch buddiolwyr targed. Gweler ein taflen wybodaeth - Sefydlu angen.

Monitro

Bydd arianwyr y Loteri am wybod:

- pa wahaniaeth fydd y prosiect yn ei wneud i'r bobl, cymunedau neu sefydliadau y gobeithiwch fydd yn cael budd
- sut fyddwch yn gwybod eich bod wedi gwneud gwahaniaeth i'r bobl neu sefydliadau fydd yn cael budd o'ch prosiect.

Y mae'n bwysig eich bod yn monitro eich llwyddiant wrth gyrraedd eich amcanion drwy gydol bywyd eich prosiect. Er mwyn gallu gwneud hyn yn effeithiol bydd angen i chi gael systemau monitro mewn lle ar ddechrau'r prosiect a dylech eu disgrifio yn eich cynllun prosiect.

Os ydych am ddangos gwerth eich gwaith efallai y bydd yn fuddiol i chi werthuso eich prosiect. Bydd gwerthusiad yn dangos os yw'ch prosiect wedi bod yn llwyddiannus, a beth y gallwch ei ddysgu o hyn. Gallwch hefyd ddefnyddio gwerthusiad i hyrwyddo'ch gwaith i sefydliadau eraill. Os ydych am gynnal gwerthusiad dylech sicrhau fod y gost am hyn wedi ei gynnwys yn eich cyllideb.

Parhau â prosiect cynaliadwy

Fel rhan o'r cynllun prosiect dylech ystyried dyfodol y prosiect wedi i'ch grant Loteri ddod i ben. Dylech gynnwys gwybodaeth megis terfynau amser eich prosiect neu os gobeithiwch y bydd yn parhau. Os gobeithiwch barhau â'r gwaith neu brosiect dylech ystyried sut y bydd yn cael ei ariannu wedi i'r grant Loteri yr ydych yn ymgeisio amdano ddod i ben. .

Awgrymiadau

Bydd cynllun prosiect yn eich helpu i adnabod yr holl adnoddau fydd angen arnoch i gyflawni eich prosiect.

Unwaith y bydd cynllun ar gyfer holl weithgareddau'r prosiect gennych, gallwch wirio os oes trefniadau rheolaeth ddigonol gennych ar gyfer cyflawni eich prosiect.

Cymorth ychwanegol

Bydd ein gwybodaeth ar gyllidebu a materion cyfreithiol yn eich helpu i gynllunio a rheoli eich prosiect. Y mae hefyd nifer o lyfrau ar gael ar y pwnc.